CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
COFNODION CYFARFOD MISOL 30ain O ORFFENNAF 2009 AM 7.30PM
NEUADD YR EGLWYS, LLANBEDR P.S.

YN BRESENNOL

Cyng Maer Selwyn Walters (Cadeirydd);
Cyng. Robert Phillips (Is-Gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Elsie Dafis,
John Davies; Margaret Davies-Evans;
Greg Evans; Lynda Mason-George;
Kistiah Ramaya; Chris Thomas,
Dorothy Williams & Derek Wilson.
Cyng. Tref a Sirol Robert (Hag) Harris
Cyng Sirol Ivor Williams
Swyddog Cymorth Cymunedol Cefnogol yr Heddlu Ryan Jones (7.30pm-8.05pm)
Mr Nathan Yates – Gohebydd y Wasg y Cambrian News

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Maer Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod ac yn enwedig Mr Nathan Yates, sydd newydd ddechrau ar ei swydd newydd fel gohebydd y Wasg y Cambrian News.

Mae'r weddi sy'n cael ei hadrodd ar ddechrau'r cyfarfod y Cyngor Tref, yn syth cyn *Gweddi'r Arglwydd* wedi ei diweddaru gan y Canon Aled Williams. Boed i'r Maer arwain aelodau mewn gweddi. Ni benderfynwyd petai'r weddi ddiwygiedig yn cymryd lle y weddi gynt yn barhaol.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

2.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Andrew Carter,Arolygydd yr Heddlu Nicola Carter a Gohebydd y Wasg Mr Carl Stringer.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

Boed i'r canlynol ddatgan ei diddordeb personol pan drafodwyd y canlynol:

3.1 Cyhoeddi Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Ganolfan Deuluol ar y 6ed o Awst – y Gyng. Mason-George gan ei bod yn cael ei chyflogi gan y Ganolfan.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Ymysg y materion a drafodwyd oedd y canlynol:

4.1 Ardal Gwahardd Alcohol (AGA):

Derbyniwyd ymateb gan Elin Prysor, Cyfreithwraig, Cyngor Sir Ceredigion yn amlinellu'r camau i'w cymryd yn ystod y misoedd nesaf, ar gyfer cyflwyniad posibl yr AGA yn Llambed. Mae ffiniau'r AGA, erbyn hyn, wedi eu sefydlu, i gynnwys Sgwâr Harford, Stryd y Coleg, rhan o Stryd y Bont, Heol y Bryn, Stryd yr Eglwys, y Stryd Fawr, Stryd y Farchnad, Ffordd Cambrian/meysydd parcio, Parc-yr-Orsedd, rhan o Res y Deml a Pharc Rhes y Deml. Bydd y Cyngor Sir Ceredigion (CSC) yn cychwyn ar gyfnod ymgynghori gan aelodau'r cyhoedd rhwng y 6ed o Awst a'r 30ain o Fedi 2009. Dylai *Rhybudd Cyhoeddus* ymddangos yn y *Cambrian News* ar y 5ed o Awst. Ar ôl i GSC dderbyn yr ymatebion bydd yn ofynnol i Gabinet y Cyngor benderfynu argymell/peidio argymell dyfodiad y Gorchymyn, i holl aelodau y Cyngor. Os mai'r penderfyniad yw gosod y cynnig o flaen aelodau'r Cyngor, bydd yn ofynnol iddynt benderfynu i fwrw ymalen â'r Gorchymyn neu i'w wrthod. Os benderfynasant i fwrw ymlaen â'r Gorchymyn bydd rhaid, yn ogystal, dethol

dyddiad i ddod â'r Gorchymyn i fodolaeth. Mae'n debygol na fydd y Cabinet yn ystyried y mater cyn Tachwedd 2009 a'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) ym mis Rhagfyr 2009. Ar yr amod eu bod yn derbyn y Gorchymyn arfaethedig, bydd yn ofynnol arddangos ail-hysbyseb yn y Wasg a gosod arwyddion, cyn gweithredu'r Gorchymyn. O dderbyn ymatebion ffafriol gan y Cyngor Sir, ni fydd yn debygol y bydd y Gorchymyn yn cael ei wireddu cyn y cyntaf o Ionawr 2010

Mae'r AGA wedi bod yn bwnc trafod gan y CT ers ystod o dair blynedd ac roedd rhai aelodau wedi gobeithio y byddai wedi bod yn bosibl i gau pen y mwdwl cyn y cyntaf o Ionawr 2010. Eglurwyd bod proses penodedig fel y crybwyllwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ac ni fyddai'n bosibl i leihau'r cyfnod amser. Pwyslesiwyd y dylai aelodau'r cyhoedd wneud eu gorau glas i ymateb yn bositif i'r ymgyrch, mewn ymgais i gryfhau'r ddadl dros y Gwaharddiad. Mae'r CT wedi cytuno eisoes, i dalu hanner y gost, i fyny at £2,500. **Gall unrhyw un sydd yn dymuno cyflwno sylwadau dros neu'n erbyn y gorchymyn, ysgrifennu at y Cyngor, (d/o Elin Prysor, Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ceredigion, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 OPA rhwng y 6ed o Awst a'r 30 o Fedi 2009.**

4.2 **Adroddwyd fod sbwriel di-ri'n** cael ei adael dros nos ym maes parcio'r Rookery. Anogir aelodau'r cyhoedd i ddefnyddio'r biniau sbwriel sydd ar gael er eu cyfleustra.

4.3 **Efallai y bydd yn bosibl derbyn grant i fyny at £12,000** ar gyfer y gwaith arfaethedig ar gae Maesyderi. Y mae'r arian ar gael o gronfa'r heddlu'n ymwneud ag asedau wedi eu cipio o ddwylo troseddwyr.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 25AIN O FEHEFIN 2009

Derbyniwyd cofnodion mis Mehefin fel rhai cywir.

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 **Canlyniad cais am gymhorthdal Y Drindod Dewi Sant:** Roedd penderfyniad ynglŷn â'r £18miliwn o gyllideb o'r *Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio* sy'n allweddol ar gyfer sicrhau llwyddiant y fenter, fod wedi ei wneud gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar yr 8fed o Fai 2009. Ysgrifennwyd at GCAUC i siarsio'r Corff i gytuno i'r cais am gymhorthdal ar y 5ed o Fai 2009. Disgwylir ateb i lythyr y Cyngor Tref.

6.2 **Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref:** derbyniwyd dyfynbris gan Garej Forge, Cwmann ar gyfer hysbysfwrdd newydd. Penderfynwyd ceisio dau dyfynbris (clustnodwyd y dasg i'r Cyng. Derek Wilson). Bydd yn rhaid i'r hysbysfwrdd newydd fod yn gadarn i wrthsefyll ymosodiadau pellach gan fandaliaid.

6.3 **Bin Ail-gylchu ar gyfer y dref:** lleoliadau arfaethedig: cytunwyd ar leoliad y ddau fin, un ym Mharc-yr-orsedd a'r llall ar Stryd y Farchnad – y mae'r cais trwydded wedi ei gyflwyno i GSC i leoli un bin ar Stryd y Farchnad (£230) – disgwylir ateb gan y CSC cyn bwrw ymlaen â'r mater. Y mae Yswiriant Cyfrifoldeb Cyhoeddus y Cyngor Tref wedi ei godi o £5miliwn i £6miliwn yn unol â gofynion y trwydded. (£70 yn ychwaneg y flwyddyn).

6.4 **Cae Maesyderi: Boed i'r Maer** fynegi ei werthfawrogiad i gontractwyr Sainsbury sydd wedi ymwneud â gwaith trwsio ar gae Maesyderi ee torri'r gwair, tocio'r perthi a gosod gât newydd mewn lle. Trefnir cyfarfod Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi cyn cyfarfod mis Awst y Cyngor Tref a disgwylir ddiweddariad llawn yr adeg hynny.

6.5 **Parc-yr-O rsedd:** archebwyd 5 o feinciau newydd ar gyfer y parc d/l y Cynllun Trefi Taclus: yn dal i ddisgwyl amdanynt.

6.6 **Newid Enw Lle – King George V Green i Parc St. Germain-sur-Moine**,: Y Maer a'r Dirprwy-Faer i wneud ymholiadau pellach parthed dyluniad yr arwydd ac i adrodd nôl i'r CT. Mae'n bosibl gosod polyn-baner yn y parc.

6.7 **Llythyr gan Mr Jamie McCormack Turner 2 Glyndŵr, Teras-yr-Orsaf,** Llanbedr PS, SA48 7HB (3/12/2008) yn dweud yr wyneba anawsterau derbyn nwyddau/parseli ac ati i'w gyfeiriad, ac yr oedd yn gwneud apêl am arwydd stryd ar gyfer y 5 Tŷ Teras. Sicrhawyd aelodau gan Mr Lyndon Griffiths Peiriannyd Is-Adrannol (Trefol) CSC y bydd arwydd newydd yn datgan yr enw **Clos Glyndŵr** yn cael ei brynu gan Gyngor Sir Ceredigion. Y mae Mr Simon Anderson, un o drigolion y tai, wedi rhoi cadarnhâd ysgrifenedig i osod yr arwydd **Clos Glyndŵr** ar ei dŷ-hysbyswyd y CSC-disgwylir ateb ganddynt cyn ymwneud â'r datblygiad nesaf.

6.8 **Cyngor ar Bopeth:** parthed cais y CT am gyflwyniad. Yn disgwyl clywed oddi wrthynt.

6.9 **Cŵn yn Baeddu:** Derbyniwyd 500 o daflenni dan law'r Cyngor Sir yn dwyn y teitl "Canllawiau i Berchnogion Cŵn Ceredigion" i'w dosbarthu i breswylwyr y dref. (un llyfryn yn amgaeëdig – Llyfrgell y Dref yn unig). Y mae Ymgynghoriad Rheoli Cŵn yn mynd yn ei flaen gan GSC. Byddant yn ddiolchgar pe gallai'r Cyngor Tref nodi mannau yn yr ardal a fyddai'n elwa o Orchmynion Cŵn. **Penderfyniad;** I gwblhau'r holiadur.

6.10 **Ymgynghoriad ar newid gofod awyr i sefydlu gofod awyr arwhân ar gyfer** amgylchedd systemau awyrennau di-griw Cymru: ymateb y Cyngor Tref wedi ei gyflwyno ar yr 21ain o Orffennaf. Ffafriwyd Opsiwn 3 (y ddogfen ymgynghorol ar gael yn Llyfrgell y Dref tan y 30ain o Fedi 2009). Sywadau

Ar yr amod fod y rheolau'n ymwneud â diogelwch a phreifatrwydd yn cael eu cadw, y mae'r manteision economaidd posibl yn gorbwyso'r peryglon y gellir godi.

6.11 **Partneriaeth Pobl Ifainc Ceredigion: cyfarfod 17/07/2009 Festri Capel Brondeifi:** Yn sgîl trafodaethau'r cyfarfod, derbyniwyd adroddiadau ffafriol ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer yr ieuainc yn Llambed.

6.12 **Shelter Cymru: parthed yr wasanaeth yn Llambed;** yn disgwyl cylwed oddi wrthynt.

6.13 **Adroddwyd fod tua chwarter yr arwydd** stryd yn datgan y geiriau 21-26 Bryn-yr-Eglwys/Penbryn wedi cael ei dorri i ffwrdd. Hefyd yr arwydd â'r geiriau Maesyderi/ Gwêl y Creuddyn sydd wedi ei leoli o flaen Eglwys San Pedr, y mae wedi colli ei siap. Adroddwyd at sylw'r CSC ac yn disgwyl clywed oddi wrthynt.

6.14 **Ymgynghoriad: Datblygu Addysg Uwchradd yng Ngheredigion tan 2020:** ymateb wedi ei gyflwyno gan y Cyngor Tref. (y ddogfen ymgynghorol ac ymateb y Cyngor Tref i'r newidiadau ar gael yn Llyfrgell y Dref tan y 30ain o Fedi 2009).

6.15 **Ymgynghoriad: Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:** `Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft 2010/2011 - ymateb wedi ei gyflwyno gan y Cyngor Tref. (y ddogfen ymgynghorol ac ymateb y Cyngor Tref i'r newidiadau ar gael yn Llyfrgell y Dref tan y 30ain o Fedi 2009).

6.16 **Y Cynllun Cyhoeddi Model Newydd:** Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: mabwysiadwyd gan y Cyngor Tref ar y 1af o Ionawr 2009. Gwnaed trefniadau i adael dwy ddogfen yn Llyfrgell y Dref, sef *Canllaw i Wybodaeth* wedi'i gwblhau a chopi o'r *Cynllun Model***.** Rhaid i gynghorau Cymuned a Thref gael systemau i sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn hawdd i'r cyhoedd ee ar y

wefan. Ar gyfer y rhan fwyaf o wybodaeth, disgwylir i'r cyngor ei darparu ar ffurf copi caled pan ofynnir iddynt. Mewn rhai achosion cyfyngedig, mae'n bosibl na fydd gwybodaeth ar gael ond i'w harchwilio.

6.17 **Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Ardal Ceredigion**: Un Llais Cymru: 15 o Orffennaf, Aberaeron: Boed i'r Maer a'r Gyng. Dorothy Williams fynychu'r cyfarfod hwn. Talwyd teyrnged i'r Gyng. Dorothy Willliams wrth iddi ymddiswyddo o'i swydd fel cadeiryddes dros gyfnod o dair blynedd. Etholwyd y Cyng. Ben Davies yn Gadeirydd am y flwyddyn 2009-10. Cynhaliwyd y cyfarfod cyffredin Gorffennaf o'r Pwyllgor Ardal yn syth ar ôl y Cyfarfod Blynyddol i gynnwys materion agenda, megis, cyflwyniad ar datblygiadau awgrymedig yn Ysbyty Bronglais, graeanu heolydd, ymgynghori ar Geisiadau Cynllunio, Rhaglen Hyfforddiant Un Llais Cymru, Cynllun Datblygu Lleol a'r Ymgynghoriad Postcomm-côd ymarfer ffeil cyfeiriadau post. Adroddwyd fod y gair *Dyfed* ac nid *Ceredigion* yn cael ei ddefnyddio'n aml.

6.18 **Cofrestr Asedau Sefydlog Y Cyngor Tref:** yn cael ei ddiweddaru. Y mae llu o eitemau wedi eu gwasgaru dros nifer o leoliadau o fewn y dref. Gwnaeth y Maer apêl i bawb a oedd ym meddiant eiddo'r CT i hysbysu'r Clerc er mwyn cofnodi'r eitem ar y cofrestr. Cytunodd y Cyng. Wilson, yn ystod cyfarfod mis Mehefin i gwtogi'r y *Bwrdd Anrhydedd,* sydd wedi ei leoli ar hyn o bryd yn Swyddfa Ddidoli'r Post, Stryd-yr-Orsaf. Ni ddarganfuwyd petai'r gwaith wedi ei ymgymryd yn ystod y cyfarfod hwn.

6.19 **Newid i Deledu Digidol:** gofynnodd aelodau Un Llais Cymru tybed a fyddai'n bosibl i gynghorwyr i estyn cyngor i'r cyhoedd, parthed y camau i'w cymryd pan yn ymwneud â'r newid i deledu digidol: penderfynwyd ail-gyferio'r cais at sylw'r mudiad CAVO, Llambed.

6.20 **Problemau Trafnidiaeth Llambed**

6.20.1 Maes Parcio'r Rookery

Derbyniwyd ymateb gan GSC i'r llythyr a gyflwynwyd gan y CT parthed y diffyg lle i barcio ar gyfer loriau, trwm hir a llwythog (THLl) a bysiau ym maes parcio'r Rookery. Adroddwyd fod lleoedd wedi eu hail-sefydlu ac ar gael ar gyfer y cerbydau hyn. Mynegwyd bryder gan aelodau ynglŷn â'r fynedfa gan fod loriau (THLl) a bysiau yn profi anawsterau pan yn ceisio defnyddio'r fynedfa. Os na fydd yn bosibl i ymgymryd â'r newidiadau, penderfynwyd gofyn tybed a fyddai'n bosibl ystyried darparu lle parcio ar gyrion y dref ee gallai bysiau llwytho/dadlwytho yn y dref a pharcio mewn ardal tu allan i'r dref.

6.20.2 Maes Parcio'r Cwmin

Mae'r CT yn hollol gefnogol i gais y CSC i gyflwyno mesuriadau yn ymwneud â pharcio ar y Cwmin, os gellir gorestyn obligiadau cyfreithiol h.y. parcio am gyfnod cyfyngedig ar gyfer holl gerbydau heb godi tâl. Mynegodd y CSC yn y llythyr, na fyddai'n bosibl i gadw llygad yn swyddogol ar y sefyllfa heb godi tâl. Gofynnir hefyd petai'n bosibl i godi'r cyfyngiad ar barcio ar ôl 6pm ac ar Ddydd Sul.

6.20.3 Lôn Picton

Cyfleir i GSC bod y CT yn croesawu'r cynnig i gyflwyno cynllun ar y cyd (rhwng y CT a'r CSC) parthed Lôn Picton ac yn barod i dalu oddeutu £1,000 fel cyfraniad y CT, mewn ymgais i ddatrys y problemau trafnidiaeth yn ymwneud â'r lôn. Yn ôl pob tebyg, ni wireddir y cais cyn

dechrau y flwyddyn ariannol nesaf gan fod y cyllid ar gyfer eleni wedi ei glustnodi'n barod ar gyfer cynlluniau eraill.

6.20.4 Arolwg Trafnidiaeth Llawn

Byddai costau aruthrol i ymgymryd ag arolwg ac i asesu'r canlyniadau. Deallir y rhesymau dros gyflwyno'r cais ond eto nid yw'n bosibl i'r Cyngor Sir i'w gefnogi'n ariannol.

6.21 Diwedderid y ffeil sy'n cynnwys manylion cyswllt cynghorwyr am y flwyddyn fwrdeistrefol 2009-10.

7. GOHEBIAETH

7.1 Adroddiad Blynyddol 2008-09 Ombudsman: dosberthid ymysg aelodau.

7.2 Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned: Un Llais Cymru: nodwyd, er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol.

7.3 Strategaeth Gorfforaethol 2009-10 CSC: nodwyd er gwybodaeth.

7.4 Deddf Hapchwarae 2005: Adolygiad o'r Datganiad Polisi Gamblo: O dan adran 349 o'r Ddeddf yma, mae'n rhaid Adolygu'r Datganiad Polisi Gamblo o leiaf bob tair blynedd. Fydd Datganiad Polisi Gamblo cyfedrol y Cyngor yn dod i ben ar 31 Ionawr 2100 ac felly dechreuir ar ymgynghoriad fel rhan o'r adolygiad. Gellir gweld Datganiad Polisi cyfedrol CSC yn unol â Deddf Hapchwarae 2005 ar wefan y Cyngor www.ceredigion.gov.uk o dan y pennawd "Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau". Dylai unrhyw sylwadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Gyngor Sir Ceredigion, Yr Adain Drwyddedu, Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Penmorfa, Aberaeron, SA46 OPA neu ar ebost licensing@ceredigion.gov.uk cyn yr 2 Hydref 2009.

7.5 Ymgynghoriad ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol sy'n ymwneud â chyngorau cymunedol a recriwtio a chadw a lwfansau cynghorwyr: Cynulliad Cenedlaethol Cymru: er gwybodaeth.

7.6 Estynnwyd gwahoddiad i holl gynghorwyr i fynychu'r Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan Deuluol ar ei newydd wedd, yn ei leoliad newydd sef 6 Stryd Thomas, Llambed ar y 6 Awst am 6pm.

7.7 Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.

8. MENTER LLAMBED

8.1 Gwefan y Cyngor Tref

Dileed safle ar y we *Lampeter.org* gan fod y trwydded ar gyfer yr enw heb fod yn ddilys bellach. Penderfynwyd sefydlu a chymryd cyfrifoldeb am safle ar y we annibynnol ar gyfer dibenion y dref. Gobeithiai'r Cyng Phillips adfer y *Lampeter.org* ond gellir colli'r safle unwaith yn rhagor gan nad oes gan *Lampeter.org* statws swyddogol a mae'n ofynnol i gofrestru'r enw bob dwy flynedd. Mae'r holl enwau ar gyfer Llambed wedi eu cymryd. Cytunodd y Cyng. Phillips i geisio darganfod cynllunydd gwefannau er mwyn dechrau ar y broses. Amcanbris y gost yw £780. Derbyniwyd ebost gan Mr Pete Tresadern, Gwely & Brecwast Tŷ Peterwell, Llambed, a oedd eisoes yn berchen ar linc ar wefan Lampeter.org, yn gresynu'r ffaith nad oedd y safle ar gael bellach. Dywedodd, "Y mae nifer o fusnesau, fel ein busnes ni, yn dibynnu ar bresenoldeb effeithiol ae y we". Penderfynwyd hysbysu Mr Tresadern o'r camau i'w gweithredu yn dilyn y cyfarfod.

8.2 **Gwneir trefniadau maes o law, i brynu** goleuadau ar gyfer y tîmau pêl droed a rygbi d/l Cyngor Tref. Adnewyddir y costau, heblaw am y TAW gan y Clybiau Chwaraeon.

8.3 **Estynnwyd groeso** i bawb i fynychu'r Agoriad Swyddogol Canolfan Gwiltiau Cymreig Jen Jones yn Neuadd y Dref, Llambed ar y 31ain o Orffennaf am 6.30pm.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 Mae'r ceisiadau canlynol wedi eu caniatau gan Gyngor Sir Ceredigion

Dyddiad yr hysbyswyd gan GSC	**Ymgeisydd a'r bwriad**	**Lleoliad**
26/06/2009 Rhif y Cais; A061202	Mr V Davies Brynmeddyg Teras Fictoria Llambed *Codi annedd*	Tir wrth gefn Brynmeddyg Teras Fictoria Llambed SA48 7DF
27/07/2009 Rhif y Cais: A090414AV	Archfarchnad Sainsbury Cyf 33 Holburn Llundain *Arddangos arwyddion*	Archfarchnad Sainsbury Cyf Stryd y Farchnad Llambed
25/07/2009 Rhif y Cais: A080303	Mr & Mrs G L Jones Garej Mountwalk Llambed *Dymchwel y garej cyfedrol a chodi tair fflat*	Garej Mountwalk Llambed
26/06/2009 Rhif y cais A090086CD	Hilary Lewis Ysgol Uwchradd Llambed Teras Peterwell Llambed *Gosod tyrbin gwynt 6kw yn cynnwys tŵr 15 metr o uchder a llafnau â diamedr o 5.5 metr. (Cyfanswm uchder o 17.75 metr hyd at ben uchaf y llafn).*	Ysgol Uwchradd Llambed Teras Peterwell Llambed
17/07/2009 Rhif y Cais: A090365	H.Hardy Llwynderw Pentrebach Llambed *Newidiadau i adeiladau allanol ar uchder a'r llawr isaf*	Llwynderw Pentrebach Llambed

9.2 **Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC:** Cofnodion 10fed o Fehefin a'r Agenda y cyfarfod 15/07/2009: er gwybodaeth.

9.3 **Rheol 14 diwrnod ar gyfer dychwelyd Ceisiadau Cynllunio i GSC**. Ar hyn o bryd dirprwyir swyddogaethau i'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd i ymateb i geisiadau cynllunio a gyfyd rhwng cyfarfodydd. Derbyniodd y mater sylw yng nghyfarfod Un Llais Cymru o'r 15fed o Orffennaf (Croes-gyfeiriad 6.17) ble dywedwyd y dylai'r ceisiadau gael eu hystyried gan nifer uwch o aelodau, cyn cael eu cyflwyno i GSC – i geisio eglurhâd ar y mater.

10. CYLLID

10.1 Cyfraniadau:

10.1.1 Sioe'r Cardis: Ceredigion yw sir nawdd ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru 2010 - **£100.00**

10.1.2 Shelter Cymru £25.00 (Croes-gyf 6.12)

10.2 Siambr Fasnach Llambed £150: llythyr oddi wrth y Siambr Fasnach yn diolch am y cyfraniad diweddar o £150 at gostau dyfrhau'r basgedi sy'n hongian dan law'r CSC. Holwyd tybed a fyddai'n bosibl i'r Siambr i berchnogi offer dyfrhau eu hun. Dywedwyd na fyddai hyn yn ddilys o safbwynt ariannol.

10.3 Penderfynwyd fod un pwynt-tâl ychwanegol yn cael ei wobrwyoir Clerc i gyrraedd y pwynt raddfa 21 yn unol ag argymhellion NALC – Canllawiau ynglŷn ag amodau a chyflog o'r 1af Ebrill 2008.

10.4 Cyflog y Clerc (Gorffennaf) **£574.08** (gan gynnwys cyflog wedi ei dalu yn ôl i'r 9fed o Fai i gynnwys y pwynt-tâl).

10.5 Golau/Gwres/Storio: **£20.00**

10.6 Treth Incwm a Chyfraniadau YC: **£121.03**

10.7 Hirio Neuadd Fictoria: Te Ieuanc Mewn Ysbryd: Te Prynhawn: 22/04; 6/05; 20/05; 3/06; 17/06; 5@ £11= **£55.00**

10.8 Hirio Neuadd Fictoria: Lansiad Offer Cadw'n Heini Parc-yr-Orsedd 28/04/2009 **£43.00**

10.9 Ad-daliad TAW – Incwm - £2,594.22

10.10 Gât – Cae Maesyderi: £365; £54.75 (TAW)

10.11 Lexis Nexis Arnold Baker: Llyfr Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol: 8fed Argraffiad: **£59.05.**

10.12 Ymgymerwyd ag archwiliad mewnol cyfrifon y Cyngor Tref yn ystod y mis diwethaf gan Mr Dave Smith am dâl o £100. Cafodd y cyfrifon eu cymeradwyo yn ystod y cyfarfod hwn ac arwyddwyd y ffurflen, "Cynghorau Lleol yng Nghymru – datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2009" gan y Caeirydd a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Bydd y cofnodion ar gael ar gyfer y cyhoedd i'w harchwilio o'r 17eg o Awst tan y 14eg o Fedi 2009, cyn anfon y ffurflen at BDO Stoy Hayward, yr Archwilwyr allanol yn Southampton. Y mae Atodiad 1 yn dangos yr incwm a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-09. Y mae Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan wedi ymrwymo i dryloywder, gonestrwydd ac atebolrwydd pan yn ymdrin ag arian y cyhoedd. Amlygwyd y materion canlynol at sylw'r aelodau

10.12.1 Gwerth arainnol y Cymynrodd sydd wedi esgyn o £10,000 i £11,631 yn ystod y 4.5 mlynedd ddiwethaf. Gellir ymdrechu i wario'r arian ar gynllun werthchweil ac yn unol â dymuniad yr ymadawedig.

10.12.2 Y ffigwr a gariwyd ymlaen o £156,166 i gynnwys y cymynrodd, ar ddiwedd y flwyddyn arinnol 2008-09. Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf gellir bod angen cwrdd â'r costau canlynol megis:

- Arwyddion newydd mynedfeydd i'r dref £3,500
- Ardal Gwahardd Alcohol £2,500
- Ffens Parc-yr-orsedd £9,000
- Bin Ailgylchu £800
- Lôn Picton £1,000
- Gwefan Newydd £800
- Cae Maesyderi (?) (amcangyfrif yw'r holl ffigyrau)

10.12.3 Yr angen i ymgymryd ag Asesiad Risg yn ystod y flwyddyn 2009-10. Dosbarthwyd esiampl wedi ei lunio gan BDO Stoy Hayward, yr Archwilwyr Allanol. Enwebwyd y Maer, Dirprwy-

Faer a'r Gyng Mason-George i gario allan yr asesiad risg. Rhaid i gyngor tref/cumyned, o ran y gyfraith, sicrhau bod y rheolaeth ariannol yn ddigonol, yn effeithiol a bod system archwilio gadarn mewn lle yn fewnol Dylai asesiad risg ganfod beth y gallai fyn o'i le, pa gamau i'w cymryd i osgoi hyn a/neu sut i drin y canlyniadau

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 LLWYBRAU CERDDED GAN GYNNWYS PARC-YR-ORSEDD

11.1.1 Mae'r bwlbiau Cennin Pedr, y gadawyd ar fynedfa Parc-yr-orsedd wedi eu dwyn gan aelod o'r cyhoedd. Y mae angen palu a gwella'r ardal y boncyffion pren o gwmpas y sglefren. Penderfynwyd ceisio gwasanaeth gwirfoddolwyr d/l CAVO, Llambed (Y Cyng. Chris Thomas a'r Gyng. Mason-George i gydlynu'r cynllun)

11.2 CAMERAU TCC

11.2.1 Adroddiad Misol ar gyfer Mehefin CSC: bu yna 5 cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud â 2 ladrad, 2 ymosodiad ac un o fwrglwriaeth. Roedd diffyg ar un camera gan na fedrai arddangos lluniau o'r 9.06.2009 i'r 12.06.2009 – collwyd 3 diwrnod o amser goruchwylio. Collwyd y gallu i recordio ac i arddangos lluniau ar yr holl gamerau o 28.06-30.06.09- collwyd un diwrnod o amser oruchwylio.

11.3 GOLEUADAU STRYD

11.3.1 Hen Golofn Lamp ar Stryd y Bryn

Derbyniwyd ymateb gan Mr Neil Garrod CSC ynglŷn â'r hen golofn lamp Heol y Bryn. Adroddwyd fod safle'r lamp yn berygl ar gyfer cadair wthio/olwyn, gan y CT ym Mawrth 2009. Bu i Mr Garrod archwilio'r safle'r lamp ac ystyried opsiynau posibl ee cyfnewid am lamp arall, ei symud i ochr arall i'r heol, ond heb lwyddiant. Dywedodd ei fod yn bosibl i bobl gerdded hebio'r golofn hyd yn oed petaent yn gwthio pram neu bygi, gan fod digon o le rhwng ffenestri'r ddau dŷ. Mewn amser gobeithir newid y goleuadau'n gyfangwbl ar Stryd y Bryn ac i leoli colofnau lamp yn unol â gofynion dylunio Safonau Prydeinig. Hyd nes ariennir y cynllun, rhaid gwneud y gorau o'r sefyllfa bresennol.

12. U.F.A.

12.1 Penderfynwyd trefnu gorymdaith drwy'r dref gan y Giardiau Cymrieg pan fydd y catrawd yn dychwelyd o'i ddyletswydd yn Afghanistan. Gwahoddir milwyr i ymdeithio drwy'r dref i dalu teyrnged i'w cyfoedion y bu farw oherwydd yr anghydfod â'r Taliban. Gwnaed y cais d/l'r Maer gan berson sy'n ynghlwm â'r Giardiau Cymreig.

12.2 Arwydd Newydd- Mynedfa i'r Dref- Ffin Sir Gâr: yn dal i aros am yr arwydd. i gysylltu â'r Cyngor Sir a Mr Tom Davies-Jones parthed y sefyllfa.

12.3 Adroddwyd fod cynfasau yn cael eu clymu ar yr arwyddion newydd ar fynedfeydd y dref yn datgan penblwyddi arbennig. Caiff hyn effaith anffafriol ar gyflwr yr arwydd.

12.4 Siambr Fasnach; Dathliad y Nadolig; 10fed o Ragfyr 4-8pm. Gwahoddiad i bawb.

12.5 Cyhoeddodd Mrs Morfudd Slaymaker fod perthynas iddi sef Mr Gabriel Restucha wedi ei ethol yn Faer Gaiman, Patagonia ym mis Tachwedd 2008 am gyfnod o bedair blynedd.

12.6 Penderfynwyd gynnig llongyfarchiadau gwresog i'r Cyng. J. isgoed Williams ar dderbyn ei MBE am iddo wasanaethu llywodraeth lleol yng Nghymru am dros hanner canrif.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cyfarfod i ben am 10.05pm.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Nos Iau 27ain o Awst am 7.30pm yn Festri Capel Shiloh

----------(Cadeirydd & Dyddiad)